Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
23 Tachwedd 2015

CLA617 - Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cynyddu uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf lawndal Tir 1973 ("y Ddeddf") i berson sy'n cael ei ddadleoli o annedd yn sgil prynu gorfodol neu amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf.

CLA618 - Gorchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu troseddau caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu dan orfod a masnachu pobl a gyflwynwyd gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 at y rhestr o droseddau difrifol yn Atodlen 2A o Ddeddf Tai 1985. Mae'r rhestr hon yn ymwneud â'r rhesymau y caiff landlord tenantiaeth ddiogel eu defnyddio i geisio gorchymyn adennill meddiant yn erbyn tenant ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol.

CLA619 - Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiad canlyniadol i Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 ("Deddf 1998") Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 46(4) o Ddeddf 1998 drwy fewnosod cyfeiriad at Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau na all person gael ei erlyn o dan Ddeddf 1998 a Deddf 2014 am drosedd sy'n deillio o'r un ymddygiad.